| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 26 Mawrth 2015 |
| **TEITL** | Trefniadau Craffu Arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd – Adroddiad pellach ar yr opsiynau. |
| **AWDUR** | Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd) |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Bu i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol dderbyn adroddiad i'w gyfarfod ar y 15 Ionawr 2015 yn amlinellu cyfeiriad cychwynnol trefniadau arfaethedig ar gyfer craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Datblygwyd tair opsiwn cychwynnol fel a ganlyn:

A) Parhau gyda threfniadau cyfredol yn y ddwy sir
B) Sefydlu panel craffu gydag aelodaeth o'r ddwy sir a chyrff eraill
C) Sefydlu Pwyllgor Craffu Gwynedd a Môn (gan wahodd cyrff eraill pan yn amserol)

1.2 Cafwyd trafodaethau da yn y Pwyllgor, a gofynnwyd am adroddiad pellach yn dilyn codi meysydd penodol o gonsyrn gan yr aelodau etholedig. Roedd y pryderon a leisiwyd ynghylch atebolrwydd gwleidyddol clir, cyrff annemocrataidd yn rhan o'r gwaith craffu, aelodaeth y panel a threfn adrodd glir i'r Cyngor.


1.3 Er mwyn hwyluso'r gwaith datblygu pellach ar y meysydd consyrn hyn, penderfynwyd cynnal gweithdy yn y Fforwm Cadeiryddion Craffu i wyntyllu'r materion hyn, gan geisio gweithio tuag at ddatrysiad clir, a hynny gyda chyngor a chymorth annibynnol ac arbenigol gan Rebecca David-Knight o'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus.

1.4 Cynhaliwyd y cyfarfod ar 25ain o Chwefror 2015, ac mae'r adroddiad yma yn cynnwys argymhellion Aelodau'r Fforwm Craffu ynghyd a'r Cynghorydd John Wyn Jones ac R H Wyn Williams a fynychodd y gweithdy i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

## 2.0 OPSIWN B

2.1 Mae'r diagram isod yn darlunio (yn fras) y cyfrifoldebau ar gyfer y 'panel' craffu ar y cyd, gan nodi y llinellau adrodd ac atebolrwydd fel a drafodwyd yn y gweithdy.

2.2 Trefniadau sicrhau argymhellion ac adrodd.


PANEL CRAFFU -
Edrych ar Pam? Be? Canlyniadau
Y panel yn llunio argymhellion i'w cyflwyno yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol h.y dirprwyo'r hawl i'r panel.
Os oes mater o gonsyrn penodol i'r Cyngor yna adrodd yn ôl i'r Cyngor.
Adrodd nol trwy'r cyfarfodydd paratoi perthnasol i'r maes i'w drafod, ac yna penderfynu os oes mater angen sylw pellach i'w adrodd yn y Pwyllgor Craffu perthnasol (ee mater am bobl bregus i'r cyfarfod paratoi gwasanaethau)

2.3 Aelodaeth

i) Cyngor Gwynedd i adrodd eu bod yn argymell i'r cyrff eraill adnabod person o ochor anweithredol eu sefydliad – person annibynnol (ee eu craffwyr hwy neu archwilio mewnol) ond gan gofio fod angen i'r person feddu ar y sgiliau priodol i allu craffu yn effeithiol

ii) Tri Aelod o Wynedd i'w hadnabod fel a ganlyn:
Cadeirydd y Fforwm Craffu
Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i adnabod cynrychiolydd, gan sicrhau fod y tri cynrychiolydd wedi ymglymu i ymgymryd â'r dyletswyddau o ddifrif.

2.4 Nododd y fforwm hefyd eu bod yn argymell treialu'r drefn am gyfnod o flwyddyn, cyn ail asesu'r trefniadau a'u llwyddiant bryd hynny.

## 3 ARGYMHELLION

Mae'r Fforwm Craffu yn argymell y dylai'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol

- gefnogi Opsiwn B, gan sicrhau yr ymgorfforir y drefn adrodd a nodir yn 2.2
- adrodd i'r grŵp sy'n llunio'r trefniadau manylach ar yr argymhelliad ynghylch aelodaeth a nodir yn 2.3(i)
- treialu'r trefniadau am gyfnod o flwyddyn cyn asesu ymhellach.

# ATODIAD 2

**<u>Aelodaeth</u>**

Mae gwahanol opsiynau ar gael wrth ystyried aelodaeth y Panel Craffu BGLl. Ystyrir ei fod yn arfer gorau, fodd bynnag, bod Panel o'r fath yn cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau partneriaeth. Bydd cynrychiolwyr o'r partneriaid yn dod â gwahanol gyfraniad ac agwedd at y Bwrdd, yn cynnwys eu ffurf benodol hwy o atebolrwydd ac arbenigedd gwasanaeth a phroffesiynol unigryw. Yr amcan yw creu synergedd cryf trwy gyfuno ac adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â rhwystrau lle y gallant fodoli. Cynigir yr aelodaeth a ganlyn sy'n seiliedig ar arfer dda :-

- 3 Aelod Etholedig o Gyngor Gwynedd nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith
- 3 Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ynys Môn nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith
- 1 wedi'i enwebu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- 1 wedi'i enwebu o Heddlu Gogledd Cymru
- 1 wedi'i enwebu o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- 1 wedi'i enwebu o Mantell Gwynedd
- 1 wedi'i enwebu o Medrwn Môn.

**<u>Trefniadau Llywodraethu ac Adrodd yn ôl</u>**

Un o brif gryfderau'r model hwn yw ei hyblygrwydd. Mae angen cwblhau gwaith pellach er mwyn datblygu'r trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ôl yn llawn ar gyfer y Panel Craffu arfaethedig. Bydd y canllawiau isod yn sylfaen i'r trefniadau hyn :-

- Darparu her 'ffrind beirniadol' i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Craffu, gwerthuso a hyrwyddo yn weithredol welliant mewn gwaith a wneir yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac nid rhai'r sefydliadau unigol sy'n rhan o'r Bwrdd ac sy'n cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Craffu, gwerthuso a bod yn weithredol yn hyrwyddo gwelliant o ran datblygu a gweithredu prosiectau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Cyflwyno adroddiadau i'r partneriaid neu'r BGLl (fel bydd yn briodol) a gwneud argymhellion ar fesurau all wella effaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion a chymunedau yng Ngwynedd a Môn.

**<u>Amlder y Cyfarfodydd</u>**

Bwriedir y bydd cyfarfodydd o'r Panel yn cael eu galw yn 6 misol. Fodd bynnag, bydd angen cael rhywfaint o hyblygrwydd wrth i siwrnai drawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol esblygu e.e. efallai y bydd aelodau'r Panel yn dymuno ystyried materion ar sail ad-hoc.